YSTADEGAU

# Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Tachwedd a Rhagfyr 2022

Adroddiad yn crynhoi data am weithgarwch a pherfformiad yn y GIG yng Nghymru ar gyfer Tachwedd a Rhagfyr 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Ionawr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Ionawr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Gofal heb ei drefnu

Gofal wedi’i drefnu

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Diweddariad nesaf

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Ceir rhagor o fanylion ar y data ym mhob maes pwnc ar ein gwefan **StatsCymru**.

Gall y gweithredu diwydiannol a gymerwyd gan staff nyrsio ar 15 a 20 Rhagfyr a chan staff y gwasanaethau ambiwlans ar 21 Rhagfyr effeithio ar yr ystadegau ar gyfer gofal heb ei drefnu a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Yn sgil yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar lefelau perfformiad a gweithgarwch y GIG, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**. Mae'r cynllun hwn yn nodi nifer o uchelgeisiau allweddol i leihau amseroedd aros ar gyfer pobl yng Nghymru. Rydym wedi ymgorffori'r mesuriadau perfformiad yma'n erbyn yr uchelgeisiau hyn yn y datganiad ystadegol hwn ac ar StatsCymru.

# Prif bwyntiau

Ym mis Rhagfyr, cafodd y gwasanaeth ambiwlans 5,949 o alwadau coch (bywyd yn y fantol), sef 14.6% o'r holl alwadau. Dyma'r nifer uchaf erioed o alwadau coch a wnaed mewn mis, y gyfran uchaf o bob galwad a'r nifer gyfartalog uchaf o alwadau dyddiol sy'n peryglu bywyd, sef 192, cynnydd o 25% o 153 ym mis Tachwedd, a oedd y nifer uchaf a gofnodwyd hyd at y pwynt hwnnw. Cafwyd ychydig dros 502,700 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru** hefyd a llenwyd dros 27,300 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)**.

Cafodd 39.5% o alwadau coch ymateb brys o fewn 8 munud yn dilyn gostyngiad am y pumed mis yn olynol. Dyma'r isaf ar gofnod ac 8.5 pwynt canran yn is na'r mis blaenorol, a oedd y ffigur cydradd isaf a gofnodwyd hyd at y pwynt hwnnw.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dim ond o fis Mai 2019 ymlaen y gellir cymharu data ar gyfer galwadau coch.

Ar gyfartaledd, roedd 2,847 o ymweliadau ag adrannau brys bob dydd, sef rhywfaint o gynnydd o'i gymharu â'r mis blaenorol. Mae'r perfformiad wedi gwaethygu o'i gymharu â'r targedau o ddeuddeg a phedair awr, sef y perfformiad gwaethaf erioed. Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) a gafodd ei dreulio mewn adrannau brys ym mis Rhagfyr wedi cynyddu o'i gymharu â'r mis blaenorol ac mae'n dal yn uchel, sef tair awr a dau funud.

Mae'r pandemig wedi achosi cynnydd mawr mewn llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd roedd y nifer wedi gostwng ychydig, o dros 753,000 i tua 748,000, yr ail ostyngiad yn olynol yn dilyn cynnydd cyson ers mis Ebrill 2020. Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym **mlog Prif Ystadegydd** Llywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth reoli newydd yn awgrymu bod tua 586,000 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru ym mis Tachwedd 2022, pan oedd tua 748,000 o lwybrau cleifion agored. Dyma'r ail ostyngiad misol yn olynol, sef gostyngiad o bron i 3,100 o gleifion ers mis Hydref.

Ym mis Tachwedd, roedd dros 111,000 o lwybrau cleifion wedi cau, yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig. Roedd hyn yn gynnydd o 4.7% ers y mis blaenorol.

Roedd cyfran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi cynyddu rhywfaint i 56.0% ym mis Tachwedd. Mae hyn wedi bod yn gymharol sefydlog ers tro ar ôl disgyn yn sylweddol o'r lefelau cyn y pandemig. Roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na 36 wythnos wedi gostwng ym mis Tachwedd o dan 253,000, ond mae'n dal yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol.

Roedd tua 49,500 o lwybrau'n aros mwy na dwy flynedd, 30 y cant yn is na'r cyfnod brig, yn dilyn gostyngiad am yr wythfed mis yn olynol ar ôl cynnydd cyson dros y flwyddyn flaenorol. Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) yr oedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

llwybrau cleifion wedi bod yn aros am driniaeth ar ddiwedd mis Tachwedd wedi disgyn ychydig o gymharu â’r mis blaenorol i 21.2 wythnos.

Disgynnodd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol i tua 85,300, gan ddisgyn am y trydydd mis ar ôl cyrraedd y rhif uchaf erioed ym mis Awst 2022.

Ar gyfer gwasanaethau diagnostig, roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros wedi disgyn ychydig i oddeutu 111,700 ym mis Tachwedd. Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy nag 8 wythnos (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi gostwng i fymryn dros 42,500 ym mis Tachwedd.

Ar gyfer therapïau, gostyngodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i tua 65,000 ym mis Tachwedd ond mae’n dal yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol. Roedd y nifer a oedd yn aros mwy na phedair wythnos ar ddeg (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi gostwng i oddeutu 9,500, gan ddisgyn am yr wythfed mis yn olynol.

Ar gyfer gwasanaethau canser, dechreuodd ychydig yn fwy o bobl eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ym mis Tachwedd (1,749) na’r mis blaenorol. Cynyddodd nifer y llwybrau a gaewyd ar ôl i’r claf gael gwybod nad oedd canser arnynt i’r lefel uchaf ers dechrau casglu’r data (14,499). Roedd y perfformiad wedi cynyddu o’i gymharu â’r targed 62 diwrnod ym mis Tachwedd i 53.9% o’i gymharu â'r ffigur o 52.2% yn y mis blaenorol, ond yn dal yn isel mewn cyd-destun hanesyddol.

# Gofal heb ei drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Rhagfyr 2022.

Gall y gweithredu diwydiannol a gymerwyd gan staff nyrsio ar 15 a 20 Rhagfyr a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

chan staff y gwasanaethau ambiwlans ar 21 Rhagfyr effeithio ar yr ystadegau ar gyfer gofal heb ei drefnu a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

## Galwadau i wasanaeth 111

Ar 16 Mawrth 2022, cafodd gwasanaeth llinell gymorth 111 ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys ei gyflwyno ledled Cymru.

Ym mis Rhagfyr, cyfanswm nifer y galwadau a wnaed i wasanaeth llinell gymorth 111 oedd 138,244, y rhif uchaf erioed a chynnydd o 157% o'i gymharu â'r cyfnod brig blaenorol ym mis Gorffennaf 2022. O'r rhain, atebwyd ychydig o dan 61,200 (44%) o'r galwadau gan y gwasanaeth 111 yng Nghymru, sef cyfartaledd o tua 1,973 o alwadau y dydd. Mae hyn 1.4% yn uwch na'r mis blaenorol.

Cafodd amcangyfrif o 77,066 (56%) o alwadau eu terfynu gan y galwr cyn cael eu hateb. O'r rhain, cafodd 16,471 eu terfynu o fewn 60 eiliad i'r negeseuon awtomatig, gan awgrymu bod eu hanghenion yn debygol o fod wedi cael eu diwallu.

Cafodd ychydig o dan 60,600 o alwadau eu gadael ar ôl 60 eiliad ac ystyrir y rhain yn alwyr yr oedd yn fwy tebygol bod dal angen gwasanaeth arnynt ar ôl y negeseuon ond nad oeddent yn gallu mynd drwodd neu eu bod wedi penderfynu peidio ag aros. Dyma'r  nifer uchaf o alwadau a gafodd eu gadael ar ôl 60 eiliad ers dechrau cofnodi, dros 4 gwaith yn uwch na'r cyfnod brig blaenorol ym mis Gorffennaf 2022.

O'r galwadau a atebwyd, nododd dros 2,870 o alwyr eu bod yn dymuno siarad Cymraeg ar yr alwad.

Cafwyd ychydig dros 502,700 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru** a llenwyd dros 27,300 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)** ym mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhagfyr, gyda'r rhain yr uchaf ers dechrau cofnodi ym mis Ebrill 2022 ac yn sylweddol uwch na'r ffigur uchaf erioed blaenorol.


Cyhoeddir rhagor o ddata ar **StatsCymru**.

## Galwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans

Mae ystod ehangach o ddangosyddion ansawdd ambiwlansys yn cael eu cyhoeddi ar **wefan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys** ac ar **StatsCymru**.

### Gweithgaredd

**Ffigur 1: Nifer cyfartalog y galwadau ambiwlans brys bob dydd, yn ôl math o alwad a mis Rhagfyr 2017 i Ragfyr 2022**




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Roedd nifer y galwadau brys a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y tymor hir, ond ar ôl gostyngiad o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'r ffigurau wedi dychwelyd i'r lefel fel ag yr oedd cyn COVID.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Galwadau ambiwlans brys ac ymatebion i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**)

Noder: Mae addasu'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Rhagfyr, gwnaethpwyd dros 40,800 o alwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans. Roedd hyn yn gyfartaledd o 1,317 o alwadau y dydd, cynnydd o 155 (13.4%) o alwadau y dydd ar gyfartaledd o gymharu â'r mis blaenorol, a 35 (2.7%) yn fwy o alwadau y dydd ar gyfartaledd na'r un mis y llynedd.

Mae galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel rhai coch (lle mae bywyd yn y fantol), rhai ambr (difrifol ond nid yw bywyd yn y fantol) neu rai gwyrdd (achosion nad ydynt yn rhai brys). Roedd 192 o alwadau coch yn cael eu gwneud bob dydd ar gyfartaledd ym mis Rhagfyr. Dyma'r nifer uchaf erioed a chynnydd o 25% o'i gymharu â'r mis blaenorol (153), sef yr uchaf erioed hyd at y pwynt hwnnw. Roedd newid i'r trefniadau delio â galwadau ym mis Mai 2019 a oedd yn effeithio ar y gallu i gymharu'r gyfres amser.

Ym mis Rhagfyr, roedd cyfran yr holl alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol yn 14.6%, i fyny o 13.2% yn y mis blaenorol a'r ffigur uchaf ers cadw cofnodion.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Perfformiad

### Targed

- Ymateb i 65% o alwadau coch (lle mae bywyd yn y fantol, mae rhywun mewn perygl o farw’n gyflym, fel ataliad ar y galon) o fewn 8 munud.

**Ffigur 2: Canran yr ymatebion brys sy’n cyrraedd lleoliad y claf o fewn 8 munud i ateb galwad goch a sefydlu’r brif gwyn, Rhagfyr 2017 i Ragfyr 2022**




Gwellodd perfformiad o ran galwadau ymateb i argyfwng wedi gwella yn ystod cyfnod cychwynnol y coronafeirws, ond ei fod wedi gwaethygu ers mis Gorffennaf 2020.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Ymatebion brys: perfformiad fesul munud i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Sylwer: Mae addasu'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Rhagfyr, cyrhaeddwyd 39.5% o'r ymatebion brys i alwadau (coch) lle mae bywyd yn y fantol o fewn 8 munud, sef gostyngiad am y pumed mis yn olynol. Dyma'r isaf ar gofnod ac 8.5 pwynt canran yn is na'r mis blaenorol, sef y ffigur cydradd isaf a gofnodwyd hyd at y pwynt hwnnw, ac 11.7 pwynt canran yn is nag ym mis Rhagfyr 2021.

Mae canolrif yr amser ymateb dros y pedair blynedd cyn y pandemig yn amrywio rhwng 4 munud 30 eiliad a 6 munud yng nghyswllt galwadau coch. Ym mis Rhagfyr, yr amser ymateb cyfartalog (canolrifol) i alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol 'coch' oedd 10 munud. Mae hyn 1 funud a 42 eiliad yn arafach na'r mis blaenorol, dros 2 funud yn arafach nag ym mis  Rhagfyr 2021, a'r arafaf erioed.

Mae'r mwyafrif o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau 'ambr', ac nid oes targed perfformiad ar gyfer amseroedd ymateb galwadau. Ym mis Rhagfyr, roedd canolrif yr amser ymateb ar gyfer galwadau ambr bron i 3 awr a 30 munud. Roedd hyn 1 awr 48 munud yn arafach nag ym mis Tachwedd, dros 2 awr yn arafach nag ym mis  Rhagfyr 2021, a'r arafaf erioed.

## Ymweliadau ag adrannau achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty

Mae ystod ehangach o ystadegau perfformiad adrannau achosion brys yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr **Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol (NCCU), fel gwybodaeth reoli.**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

**Ffigur 3: Nifer cyfartalog y presenoldebau yn adrannau damweiniau ac achosion brys GIG Cymru, a derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i bresenoldebau mewn adrannau achosion brys mawr y dydd, Rhagfyr 2017 i Ragfyr 2022**




Mae nifer y bobl sy’n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yn uwch ar y cyfan ym misoedd yr haf na’r gaeaf. Gellir hefyd gweld y gostyngiad yn nifer y bobl sy’n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys, oherwydd pandemig COVID-19.

Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys GIG Cymru fesul band oedran, rhyw a safle ar StatsCymru**)

Sylwer: Mae’r Siart yn dangos nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mawr ac unedau mân anafiadau, a nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn unig.

Ym mis Rhagfyr, roedd dros 88,200 o ymweliadau â holl adrannau brys GIG Cymru. Roedd hyn yn gyfartaledd o 2,847 o ymweliadau ag adran achosion brys y dydd; 12 yn fwy bob dydd ar gyfartaledd na'r mis blaenorol.

Ym mis Rhagfyr, derbyniwyd dros 15,500 o gleifion i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl bod mewn adran achosion brys fawr. Roedd hyn 8.2% yn uwch na'r mis blaenorol, a 7.3% yn uwch na'r un mis yn 2021.

## Perfformiad

### Targedau


- Dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Ni ddylai'r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 4: Canran y cleifion sy’n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys y GIG, Rhagfyr 2017 i Ragfyr 2022**




Nid yw’r targed o 95% wedi cael ei gyrraedd ers mis Hydref 2015, ond gwellodd y perfformiad dros ychydig fisoedd cyntaf pandemig COVID-19.

Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty ar StatsCymru**)

Ym mis Rhagfyr, roedd 63.1% o gleifion yn holl adrannau achosion brys y GIG wedi treulio llai na 4 awr yn yr adran, o’r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Roedd hyn 4.2 pwynt canran yn is na’r mis blaenorol a’r ffigur isaf erioed.

Yn 2019, canolrif yr amser a dreuliwyd mewn adran achosion brys oedd tua 2

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

awr 30 munud. Yn ystod rhan gyntaf y pandemig, wrth i nifer yr ymweliadau ostwng, roedd canolrif yr amser a dreulir yn yr adran wedi gostwng i isafbwynt o 1 awr a 47 munud ym mis Ebrill 2020. Ers hynny, mae canolrif yr amseroedd wedi cynyddu ac wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef 3 awr ac 8 munud ym mis Mawrth 2022. Yn y data diweddaraf ar gyfer mis Rhagfyr, canolrif yr amser aros oedd 3 awr a 2 funud, y trydydd uchaf  erioed ac 11 munud yn arafach na'r mis blaenorol.

Mae canolrif yr amser sy'n cael ei dreulio mewn adran achosion brys yn amrywio yn ôl oedran. Cyn y pandemig, roedd plant (rhwng 0 a 4 oed) yn treulio rhwng 1 awr a 30 munud a 2 awr mewn adrannau achosion brys, ac roedd cleifion hŷn (85 oed a hŷn) yn treulio rhwng 3 awr a 30 munud a 5 awr.


Ym mis Rhagfyr, treuliodd plant (0-4 oed) 2 awr a 42 munud yno ar gyfartaledd. Treuliodd oedolion 85 oed a hŷn gyfartaledd o 7 awr a 32 munud mewn adrannau brys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 5: Nifer y cleifion sy’n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau i adrannau achosion brys y GIG, Rhagfyr 2017 i Ragfyr 2022**




Ers mis Hydref 2015 nid yw’r targed o beidio â chael unrhyw gleifion yn aros mwy na 12 awr wedi cael ei gyrraedd. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cleifion a arhosodd mwy na 12 awr ym mis Mawrth 2020 oherwydd y gostyngiad yn nifer y bobl a aeth i adrannau brys yn ystod pandemig y coronafeirws.

Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Perfformiad yn erbyn y targed 12 awr fesul ysbyty ar StatsCymru**)

Ym mis Rhagfyr, roedd 12,099 o gleifion yn aros 12 awr neu fwy. Roedd hyn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2,047 (20.4%) yn fwy na’r mis blaenorol, a’r ffigur uchaf erioed.

## Gofal wedi’i drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Hydref 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Atgyfeiriadau cleifion allanol

## Gweithgaredd

**Ffigur 6: Nifer cyfartalog yr atgyfeiriadau dyddiol ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**




Pandemig y coronafeirws sydd i gyfrif am y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau cleifion allanol o fis Chwefror 2020 ymlaen.

Ffynhonnell: Set Ddata Atgyfeiriad Cleifion Allanol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Atgyfeiriadau cleifion allanol ar StatsCymru**)

Ar gyfartaledd, roedd 4,060 o atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.


allanol wedi'u gwneud bob dydd ym mis Tachwedd. Mae hyn yn gynnydd o 4.3% (166 yn fwy o atgyfeiriadau bob dydd ar gyfartaledd) o'i gymharu â mis Hydref, a'r ffigur uchaf erioed.

## Perfformiad

### Targedau

- Neb yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol erbyn diwedd 2022 (targed newydd wedi'i sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio**).

**Ffigur 7: Nifer y llwybrau sy'n aros dros flwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**




Mae'r siart yn dangos nifer y Llwybrau sy'n Aros Mwy na Blwyddyn am eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Penodiad Cyntaf, fesul Mis. Mae'n dangos bod nifer y llwybrau cleifion wedi cynyddu ers dechrau'r pandemig coronafeirws.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Atgyfeiriad am driniaeth ar StatsCymru**)

Ym mis Tachwedd, gostyngodd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol gan 10.3% o'i gymharu â'r mis blaenorol i oddeutu 85,300. Bu cynnydd dramatig yn nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am apwyntiad cyntaf fel claf allanol yn ystod y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Amseroedd Aros Diagnostig a Therapi

## Gweithgaredd

**Ffigur 8: Cyfanswm y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**




Mae'r cynnydd yn nifer y cleifion sy'n aros o fis Mawrth 2020 am wasanaethau diagnostig o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws. Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n aros am wasanaethau therapi ym mis Mawrth 2020 yn bennaf oherwydd bod llai o gleifion yn defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru**)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Noder: Mae’r pwynt isel ym mis Ebrill 2020 ar gyfer therapïau yn rhannol oherwydd nad oedd Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno data ar gyfer y mis hwn, gweler yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd i gael **rhagor o wybodaeth**.

Ym mis Tachwedd, roedd dros 111,000 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig, sef gostyngiad bach o 0.3% o’i gymharu â’r mis blaenorol. Roedd dros 65,000 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig, sef gostyngiad o 2.1% o’i gymharu â’r mis blaenorol, ond yn dal y chweched ffigur uchaf erioed a gofnodwyd.

## Perfformiad

#### Targedau

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio** sefydlu Gwanwyn 2024 fel dyddiad targed i gyflawni'r targedau hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 9: Canran y llwybrau cleifion sy’n aros yn hwy na’r amser targed ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi yn ôl targed, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**




Pandemig y coronafeirws sydd i gyfrif am y cynnydd yng nghanran y nifer sy’n aros mwy na’r amser targed ers mis Mawrth 2020.

Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru**)

Ddiwedd mis Tachwedd, roedd tua 42,500 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na’r amser targed am brofion diagnostig. Roedd hyn yn ostyngiad bach o 0.6% o’i gymharu â’r mis blaenorol.

Ddiwedd mis Tachwedd, roedd tua 9,500 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na’r amser targed ar gyfer therapïau. Roedd hyn yn ostyngiad o 14.1% o’i gymharu â’r mis blaenorol ac yn ostyngiad am yr wythfed mis yn olynol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Roedd canolrif yr amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn weddol sefydlog ers 2017 (2.8 wythnos ar gyfartaledd) ac ar gyfer gwasanaethau therapi ers 2018 (3.6 wythnos ar gyfartaledd). Roedd canolrif yr amseroedd aros ar gyfer y ddau wasanaeth wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2020 (14.3 wythnos ar gyfer diagnosteg ac 14.9 wythnos ar gyfer therapïau).

Ym mis Tachwedd, 5.4 wythnos oedd canolrif yr amser aros ar gyfer profion diagnostig, o'i gymharu â 5.3 yn y mis blaenorol. Roedd canolrif yr amser aros ar gyfer gwasanaethau therapi yn 5.2 wythnos, yr un lefel â'r mis blaenorol.

## Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae'r ystadegau ar gyfer yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dangos data misol ar yr amseroedd aros ar gyfer llwybrau agored a chaeedig ar ôl derbyn atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty am driniaeth yn y GIG. Llwybrau agored yw'r rheini sy'n aros ar y rhestr aros ar y rhestr aros am driniaeth, ac mae llwybrau sydd wedi'u cau yn golygu'r rheini sydd wedi'u tynnu oddi ar y rhestr aros.

Mesurir gweithgarwch yn ôl llwybrau cleifion, sy'n wahanol i nifer y cleifion. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth hwn ar gael ym **mlog prif ystadegwyr Llywodraeth Cymru**.

Mae gwybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu yn cael ei chyhoeddi hefyd, ar gyfer nifer y cleifion unigol sydd ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Perfformiad

### Targedau

- Dim cleifion yn aros mwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023, a dim cleifion yn aros mwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025 (targedau newydd wedi'u sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio**).
- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos ar ôl atgyfeirio.
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeirio.

**Ffigur 10: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r siart yn dangos y data llwybr cleifion. Mae'n dangos bod nifer y llwybrau cleifion wedi cynyddu ers y pandemig coronafeirws.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi’u grwpio a cham y llwybr ar StatsCymru**)

Ym mis Tachwedd, roedd dros 748,000 o lwybrau cleifion yn aros i ddechrau triniaeth. Mae hyn yn ostyngiad am yr ail fis yn olynol, i lawr 0.7% o dros 753,000 ym mis Hydref ond dyma’r bedwerydd nifer uchaf erioed o hyd a 61.5% yn uwch na mis Chwefror 2020. Nid oes modd cymharu ystadegau rhestrau aros yn uniongyrchol ar draws pedair gwlad y DU. **Nid oes modd cymharu ystadegau rhestrau aros yn uniongyrchol ar draws pedair gwlad y DU (blog gan y Prif Ystadegydd)**.

Roedd dros 168,500 o lwybrau’n aros am fwy na blwyddyn ym mis Tachwedd. Mae’r nifer wedi disgyn am y trydydd mis yn olynol er ei fod wedi bod yn gymharol sefydlog ers y Gwanwyn 2021. Roedd tua 49,500 o lwybrau’n aros mwy na dwy flynedd, 30 y cant yn is na’r cyfnod brig yn dilyn gostyngiad am yr wythfed mis yn olynol, ar ôl cynnydd cyson dros y flwyddyn flaenorol.

Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor.


Nid oes gennym ystadegau swyddogol ynghylch nifer y cleifion unigol sy’n aros i ddechrau triniaeth. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu yn amcangyfrif bod 586,000 o gleifion unigol ar restrau aros yng Nghymru ym mis Tachwedd, pan oedd yr Ystadegau Gwladol (uchod) yn adrodd bod dros 748,000 o lwybrau cleifion agored. Mae hyn yn ostyngiad am yr ail fis yn olynol, gostyngiad o bron i 3,100 o gleifion ers mis Hydref.

Yn wahanol i’r Ystadegau Gwladol sydd wedi’u cynnwys mewn rhannau eraill o’r datganiad hwn, sydd wedi cael eu hasesu’n annibynnol yn erbyn y Cod Ymarfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ar gyfer ystadegau, mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar wybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu. Er bod egwyddorion y Cod Ymarfer wedi'u cymhwyso, nid yw sicrhau ansawdd yn cyfateb i lefel yr Ystadegau Gwladol. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddeall cryfderau a chyfyngiadau'r data hyn, a bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir wrth i ni ddysgu rhagor. Am y rhesymau hyn, mae mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif hwn na'r ffigurau eraill yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, mae lefel diddordeb y cyhoedd mewn deall nifer y cleifion yn ychwanegol at nifer y llwybrau cleifion yn ychwanegu digon o werth i gyflwyno'r wybodaeth hon.

**Ffigur 11: Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**




Mae'r siart yn dangos yr amrywiadau o fis i fis yn y data ac yn dangos bod canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos wedi gostwng ers y pandemig coronafeirws.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Digidol Cymru (DHCW) (**Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru**)

O blith mwy na 748,000 o lwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth erbyn diwedd mis Tachwedd, roedd 56.0% wedi bod yn aros llai na 26 wythnos. Roedd hyn 0.4% pwynt canran yn uwch nag yn y mis diwethaf, ond 28.3 pwynt canran yn is na mis Chwefror 2020.

**Ffigur 12: Nifer y llwybrau cleifion oedd wedi aros mwy na 36 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**




Mae'r siart yn dangos yr amrywiadau yn y data o fis i fis ac yn dangos bod nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos wedi cynyddu ers pandemig y coronafeirws.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru**)

Ym mis Tachwedd, roedd tua 253,000 o lwybrau cleifion wedi bod yn aros dros 36 wythnos. Roedd hyn yn 33.8% o’r holl lwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth. Roedd hyn 7,209 (neu 2.8%) yn llai nag yn y mis blaenorol ond dal yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol.

Roedd canolrif yr amser aros i ddechrau triniaeth wedi bod tua 10 wythnos cyn y pandemig rhwng diwedd 2013 a mis Chwefror 2020. Cynyddodd hyn yn ystod y pandemig a chyrhaeddodd y lefel uchaf erioed o 29 wythnos ym mis Hydref 2020. Ym misTachwedd, roedd canolrif yr amser aros yn 21.2 wythnos, sef gostyngiad o 21.6 wythnos yn y mis blaenorol.

**Ffigur 13: Nifer y llwybrau cleifion sydd wedi cau, Tachwedd 2017 i Dachwedd 2022**




Pandemig y coronafeirws sydd i gyfrif am y gostyngiad yn nifer y llwybrau sydd wedi cau yn y misoedd ers mis Mawrth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (**Llwybrau cleifion ar gau yn ôl y mis, y bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros ar StatsCymru**)

Sylwer: Diwygiwyd y data i gynnwys llwybrau caeedig bwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn. Hyd at ddatganiad ystadegol Gorffennaf 2022, nid oedd y gyfres ddata ar gael ar gyfer Cwm Taf Morgannwg. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Cafodd dros 111,600 o lwybrau cleifion eu cau ym mis Tachwedd. Roedd hyn yn gyfartaledd o 5,073 o lwybrau cleifion yn cau bob diwrnod gwaith. Roedd hyn yn lefel debyg i'r mis blaenorol a'r ail uchaf ers mis Chwefror 2020.

## Gwasanaethau canser

Cafodd yr ystadegau hyn eu labelu'n **arbrofol (ONS)** yn flaenorol. Ar ôl adolygu dulliau, gwnaethom dynnu'r lefel arbrofol ym mis Tachwedd 2022.

Mae nifer o **fesurau ehangach o'r llwybr amheuaeth o ganser** yn cael eu cynhyrchu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad ystadegol hwn.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Ffigur 14: Llwybrau amheuaeth o ganser a gaewyd yn y mis, yn ôl mis a chanlyniad, Tachwedd 2019 i Dachwedd 2022




Siart yn dangos Nifer y cleifion a cael gwybod nad oes canser arnynt a nifer y cleifion a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis.

Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) (**Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi'u cau) ar StatsCymru**)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Tachwedd, dechreuodd 1,749 o lwybrau, lle’r oedd cleifion newydd gael diagnosis o ganser, eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis. Roedd hyn 3.2% yn fwy na’r mis blaenorol.

Cafodd 14,499 o lwybrau eu cau, ar ôl i gleifion gael gwybod nad oedd ganddynt ganser. Roedd hyn yn gynnydd o 0.6% o’i gymharu â’r mis blaenorol, a dyma’r lefel uchaf ers dechrau cadw cofnodion.

Ym mis Tachwedd, agorwyd 15,707 o lwybrau cleifion yn ystod y mis yn dilyn amheuaeth newydd o ganser. Roedd hyn yn gynnydd o 124 (0.8%) o’i gymharu â’r mis blaenorol.


## Perfformiad

### Targed

- Dylai o leiaf 75% o gleifion ddechrau cael triniaeth o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Nid yw'r targed yn berthnasol i ddata a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodau amser cyn Rhagfyr 2020.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio** sefydlu targed newydd o 80%, i'w gyrraedd erbyn 2026.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 15: Canran y llwybrau lle dechreuodd y claf ar ei driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn yr amser targed, Tachwedd 2019 i Rhagfyr 2022**




Siart yn dangos canran y cleifion a ddechreuodd gael triniaeth cyn pen 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth gyntaf o ganser godi yn y mis, fesul mis.

Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) (**Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi'u cau) ar StatsCymru**)

Ym mis Tachwedd, roedd 53.9% o'r llwybrau (942 allan o 1,749) wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Roedd hyn 1.7 pwynt canran yn uwch na'r mis blaenorol ond 5.0 pwynt canran yn is na mis Tachwedd 2021 ac yn isel mewn cyd-destun


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hanesyddol.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r holl wybodaeth am ansawdd a methodoleg mewn perthynas â'r datganiad ystadegol hwn i'w gweld yn y **Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: adroddiad ansawdd**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, rhaid iddynt wneud y canlynol: (a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

### Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**.

## Diweddariad nesaf

23 Chwefror 2023

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Ryan Pike
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

SFR 5/2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.